# LLOYD, EVAN (1728 - 1801), Maes y Porth ym mhlwyf Llangeinwen, sir Fôn, hynafiaethydd a bardd

**Enw:** Evan Lloyd
**Dyddiad geni:** 1728
**Dyddiad marw:** 1801
**Priod:** Margaret Lloyd (née Thomas)
**Rhiant:** Anne Lloyd
**Rhiant:** Lewis Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd a bardd
**Cartref:** Maes y Porth
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** Griffith Milwyn Griffiths

mab Lewis Lloyd Maes-y-Porth, twrnai, ac Anne, ei wraig, bedyddiwyd ef yn Llangeinwen, 26 Mai 1728. Ar 11 Ionawr 1774, priododd Margaret Thomas yn eglwys Llansadwrn, sir Fôn. Yn 1793 ef oedd uchel siryf sir Fôn. Cymerai gryn ddiddordeb mewn llenyddiaeth ac achyddiaeth Gymraeg, a bu llawysgrifau Wynnstay 2, N.L.W. 560, 1256, 1258 a 1260, a Bangor 5944 unwaith yn ei feddiant. Ceir ei enw hefyd yn llawysgrif Peniarth 160. Yn B.M. Add MS. 15010 ceir achau a gopïwyd o waith oedd yn ei feddiant, a hwyrach mai ef a grynhodd yr achau a welir yn llawysgrifau Bangor 6946-7020. Enillodd beth bri hefyd fel bardd, a cheir enghreifftiau o'i gyfansoddiadau a'i gyfieithiadau yn llawysgrifau Bangor 5944 a 5947. Ceir darnau yn ei annerch yn llawysgrifau Caerdydd 3. 3, Mostyn 164, a Bangor 6 a 5947. Claddwyd ef yn Llangeinwen 21 Awst 1801.

## Awdur

**Griffith Milwyn Griffiths**

## Ffynonellau


T. Parry, rhagymadrodd i *Gwaith Dafydd ap Gwilym* (Caerdydd 1952)

Cofrestri Esgobaeth Bangor yn N.L.W.

*Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914)

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9), 118

*Public Record Office, List of Sheriffs for England and Wales ... to A.D. 1831* (1898) (P.R.O.)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733036


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu